

## YR ATODLEN

Erthygl 3

Materion y mae'n rhaid rhoi gwybodaeth amdanynt i denantiaid diogel

1. Amlinelliad o effaith darpariaethau Rhan 5 o'r Ddeddf o ran—
  - (a) yr amgylchiadau pan ellir a phan na ellir arfer yr hawl i brynu;
  - (b) yr eithriadau i'r hawl i brynu a nodir yn Atodlen 5 i'r Ddeddf;
  - (c) y weithdrefn ar gyfer hawlio'r arfer hawl i brynu;
  - (ch) y dull o gyfrifo'r pris sy'n daladwy am y tŷ annedd gan denant sy'n arfer yr hawl i brynu; a
  - (d) y gweithdrefnau hysbysu oedi ar gyfer landlordiaid a thenantiaid a nodir yn adran 153A a 153B a hysbysiadau cwblhau'r landlord o dan adran 140 a 141 o'r Ddeddf.
  
- 2.—(1) Y ffaith ei bod yn debygol y tynnir costau cychwynnol gan denant diogel sy'n arfer ei hawl i brynu.
  - (2) Mae'r cyfeiriad ym mharagraff (1) at gostau cychwynnol yn cynnwys costau o ran—
    - (a) y doll stampiau;
    - (b) ffioedd cyfreithiol ac arolygu;
    - (c) ffioedd prisio a chostau sy'n gysylltiedig â chymryd morgais.
  
- 3.—(1) Y ffaith ei bod yn debygol y bydd tenant diogel yn gorfod gwneud taliadau rheolaidd fel perchennog tŷ annedd.
  - (2) Mae'r cyfeiriad ym mharagraff (1) at daliadau rheolaidd yn cynnwys taliadau o ran—
    - (a) unrhyw forgais neu arwystl ar y tŷ annedd;
    - (b) yswiriant adeiladau, yswiriant bywyd, ac yswiriant diogelu taliadau morgais;
    - (c) y dreth gyngor;
    - (ch) gwasanaethau dŵr, carthffosiaeth, nwy, trydan, neu gyfleustodau eraill.
  
4. Risg adfeddiannu'r tŷ annedd os na wneir y taliadau morgais yn rheolaidd.
  
5. Er mwyn cynnal yr eiddo mewn cyflwr da, y ffaith ei bod yn debygol y bydd yn rhaid i berchennog tŷ annedd dynnu gwariant a allai gynnwys talu taliadau gwasanaeth (blynyddol yn ogystal ag o ran gwaith mawr) lle bo'n briodol.